# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 22 Hydref 2020**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Mary Jones

**Cyngor Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Michael Williams

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Einir Williams.
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyng. Pearl Evans.

**2. Beca Roberts – Swyddog Ymgysylltu Cymunedol**
Cafwyd cyflwyniad byr gan Beca i gyflwyno Prosiect Tirwedd y Carneddau. Diolchwyd iddi am ei hamser ac am y cyflwyniad diddorol dros ben.

**3. Datgan Diddordeb**
Eitem 8-Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Neville Hughes.

**4. Materion Brys**
**4.1** Golau stryd ar Ffordd Gerlan ddim yn gweithio – wrth Frondeg a llwybr cyhoeddus rhif 13.

**5. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2020, yn ddarostyngedig i Eitem 5 - dyddiad y cyfarfod. Angen ei newid i '...a gynhaliwyd 25 Mehefin 2020'.

**6. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**6.1** Arwyddion newydd Ogwen Bank – cais apêl wedi ei wrthod, felly bydd angen i'r arwyddion cael eu tynnu lawr.
**6.2** Cyffordd A5 ger Copa – problem gweledol gan bod coeden wedi gordyfu yn gardd 87 Stryd Fawr. Y coed wedi eu torri, ond dal yn rhy uchel.
**6.3** Lloches bws Sgwar Rachub – cais wedi ei anfon at Cyngor Gwynedd i osod lloches cantilever heb seti ar y safle. Disgwyl ymateb Cyngor Gwynedd am beth yw'r cam nesaf ac hefyd gyda gosod lloches bws newydd ym Mraichmelyn.

**6.4** Ffordd Coetmor, cyflwr y lôn yn ofnadwy, yn enwedig wrth y llyfrgell. Llawer o dyllau angen eu llenwi. Dim ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd. Angen holi unwaith eto.
**6.5** Stryd Fawr, Rachub – o Capel Carmel at y Sgwâr. Y ffordd angen sylw. Dim ymateb hyd yn hyn. Angen holi eto.
**6.6** Rhos y Nant – dŵr yn sefyll, angen sylw i'r draeni. Dim ymateb hyd yn hyn.
**6.7** Cadw Cymru'n Daclus – Lleoedd Lleol ar gyfer natur – cais yn llwyddiannus. Y gwely blodau wedi ei osod, ac bydd angen gwirfoddolwyr i blannu'r planhigion a gosod yr offer ychwanegol.
**6.8** Bin halen Stryd y Ffynnon – wedi ei symud i mewn i'r maes parcio.
**6.9** CCTV Stryd Fawr – y Cyng. Einir Williams wedi holi am ddiweddariad. Dim byd pellach wedi digwydd. Y Clerc i ddal ati gyda'r ymholiadau.
**6.10** Gwasanaeth bws Arriva i Gerlan – balch iawn bod y gwasanaeth am ail-ddechrau ym mis Tachwedd. Diolch i Sian Gwenllian, Hywel Williams, Paul Rowlinson a Rheinallt Puw am eu gwaith caled.
**6.11** Goleuadau stryd Rhes Jâms - wedi eu trwsio.
**6.12** Parc Meurig – llechi gyda cerfluniau cymeriadau Llyfr Mawr y Plant. Angen eu paentio/adnewyddu. Y Cyng. Rheinallt Puw i'w drafod gyda swyddog LleChi.

## 7. Amserlen gweddill cyfarfodydd 2020-21

Pawb yn hapus i dderbyn yr amserlen.

| | |
|---|---|
| **2020** | |
| HYDREF | Iau, 22 Hydref |
| TACHWEDD | Iau, 26 Tachwedd |
| RHAGFYR | Iau, 17 Rhagfyr |
| **2021** | |
| IONAWR | Iau, 28 Ionawr |
| CHWEFROR | Iau, 25 Chwefror |
| MAWRTH | Iau, 25 Mawrth |
| EBRILL | Iau, 29 Ebrill |
| MAI | Iau, 27 Mai |

## 8. Adroddiad Partneriaeth Ogwen

Pawb wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig o'r holl waith a phrosiectau sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd. Y Cyng. Neville Hughes eisiau llongyfarch y tîm ac yn falch iawn o'r hyn sydd yn digwydd yn y dyffryn.

## 9. Adroddiad Pwyllgor Cyllid

Pawb wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig gyda cyllideb a gwariant y Cyngor hyd yn hyn. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad. Trafodwyd yr arian grant a dderbyniwyd am y Gorffwysfan a byddai atgyweirio'r adeilad yn syniad da.

## 10. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

**Hyfforddiant Cyllid Un Llais Cymru** – y Cyng. Godfrey Northam wedi mynychu'r modiwl ac yn adrodd yn ôl bod newidiadau ar y gweill gyda'r archwiliadau blynyddol.

**Lansiad Partneriaeth y Carneddau** – rhai o'r aelodau wedi mynychu'r digwyddiad ar-lein. Pawb yn datgan faint o wych oedd cyflwyniad Ieuan Wyn.

**11. Maes parcio Gerlan**

Trafodwyd y risgiau ynghlwm â'r prosiect , a hefyd chrynodeb o'r holl gostau ynghlwm â'r maes parcio, hyd yn oed os fuasai'r prosiect ddim yn symud yn ei flaen. Penderfynwyd yn unrfrydol i fynd ymlaen gyda'r prosiect. Y Clerc i anfon y ffurflen gais am fenthyciad gan y PWLB.

**12. Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Hydref 2020'

**12.1** E-bost gan Llywodreath Cymru – ymgynghoriad Rheoliadau ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Penderfynwyd ei adael tan mis nesaf.

**12.2** E-bost gan Cyngor Gwynedd a Môn – ymgynghoriad cyhoeddus-canllawiau cynllunio atodol. Penderfynodd y Cyngor ddatgan ei gefnogaeth mewn egwyddor. Trafodwyd nad oes pwerau ar hyn o bryd, bydd angen i'r llywodraeth nesaf newid y ddeddfau.

**12.3** E-bost gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2021/22. Nodwyd yr ohebiaeth.

**12.4** E-bost gan Un Llais Cymru – rhestr o gyrsiau hyfforddiant sydd ar gael arlein. Angen cysylltu gyda'r Clerc os oes ganddo chi ddiddordeb cofrestru.

**12.5** Ebost gan Cyngor ar Bopeth – hysbysiad o'u Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Nodwyd yr ohebiaeth.

**12.6** Gohebiaeth rhwng Gareth Llwyd a Chyngor Gwynedd ynglŷn a dryswch gyda enwau strydoedd ym Methesda. Nodwyr yr ohebiaeth.

Nodwyd fod arwydd ar gyfer Sgwar Buddug wedi ei gam-sillafu. Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd. Soniwyd hefyd am holi i gael arwydd ar gyfer Lôn Pâb. Y Clerc i fynd ar ôl hyn.

**13. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**

<u>**Penderfyniadau**</u>

**C18/1159/13/LL**

| | |
|---|---|
| Y Wern, Hen Fferm Gerlan | Codi 4 tŷ newydd, lôn mynediad a mynediad newydd<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau. |

**C19/1203/13/DT**

| | |
|---|---|
| Heulwen, 23 Ystad Coetmor, Bethesda | Cais ar gyfer codi estyniad deulawr gyda tô grib yng nghefn yr eiddo<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C20/0018/13/LL**

| | |
|---|---|
| Tir ger Llain y Pebyll, Bethesda | Codi 7 annedd preswyl ar gyfer yr henoed ynghyd â llecynnau parcio a man troi.<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C20/0716/13/LL**
1 Lon Sarnau, Bethesda

Cais ar gyfer trosi modurdy i anecs is-raddol i'r eiddo adnabyddir fel '1 Lon Sarnau, Ffordd y Stesion, Bethesda'
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0152/13/LL**
4 Rhes Ogwen

Cais ar gyfer trosi is-lawr eiddo i uned breswyl hunan gynhaliol ynghŷd a rhannu modurdy cefn i fodurdy a phorth car
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0586/13/DT**
51 Braichmelyn, Braichmelyn

Estyniadau a newidiadau
**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau.

**C20/0622/13/LL**
Pen Bre Ffordd Y Mynydd, Rachub

Creu croglofft o fewn yr annedd bresennol ynghŷd a gosod ffenestri tô
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**<u>Ceisiadau</u>**
**C20/0819/13/DT**
6 Ffordd Gerlan, Gerlan

Estyniad i'r gegin presennol a chreu balconi uwchben yr estyniad
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

**C20/0770/13/DT**
9 Stryd Gray, Carneddi, Bethesda

Cais ar gyfer codi estyniad unllawr i gefn eiddo
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

**C20/0675/13/AC**
13 Llwyn Bedw, Rachub

Diwygio amod 2 ac amod 3 o ganiatad cynllunio C20/0285/13/LL
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

**14. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Hydref) | £302.27 |
| CThEM (Hydref) | £75.60 |
| Cyngor Gwynedd-toiledau cyhoeddus | £4000.00 |
| Dŵr Cymru – Gorffwysfan | £108.58 |
| Defib Store Ltd | £551.58 |
| Zoll Medical Ltd | £983.88 |